------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 56(v2)

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

### 4 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 23 mewn perthynas â Deisebau'r Cyhoedd

(5 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NDM6250** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 23 - Deisebau'r Cyhoedd' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2017; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 23, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6210**

Lee Waters (Llanelli)
Jeremy Miles (Castell-nedd)
Vikki Howells (Cwm Cynon)
Hefin David (Caerffili)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1 Yn nodi bod tua 40 y cant o'r gweithlu sy'n cael eu cyflogi yn yr 'Economi Sylfaenol' yn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau hanfodol fel seilwaith; cyfleustodau; prosesu bwyd, manwerthu a dosbarthu; ac iechyd, addysg a gofal.

2 Yn cydnabod bod y sectorau hyn yn aml yn fwy abl i wrthsefyll ergydion economaidd allanol a bod ganddynt gryn botensial i sicrhau mwy o werth lleol o ddarparu nwyddau a gwasanaethau lleol.

3 Yn gresynu fod llawer o'r sectorau o fewn yr Economi Sylfaenol yn nodedig am swyddi â thâl isel ac ansicrwydd.

4 Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth i wneud yn fawr o effaith yr 'Economi Sylfaenol' ledled Cymru fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu strategaeth economaidd newydd, gan gynnwys mesurau i wella amodau cyflogaeth yn y sectorau hynny.

Cefnogir gan:

David Melding (Canol De Cymru)
David Rees (Aberavon)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6251** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod sicrwydd o gartref, gofal iechyd, addysg a bod yn ddiogel gartref, yn ddiogel yn yr ysgol ac yn ddiogel yn y gymuned yn adeiladu seiliau cryf ar gyfer datblygiad iach pob plentyn;

2. Yn nodi pwysigrwydd gweledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd plant, sy'n hyrwyddo iechyd a lles o'r crud.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella'r broses o gasglu data a'r ddealltwriaeth o iechyd plant yng Nghymru drwy:

a) ehangu arolygon profiadau canser i gasglu data ar gyfer plant o dan 16 oed;

b) cynnal gwaith ymchwil i fwlio gan gyfoedion; ac

c) ailwerthuso cymorth iechyd meddwl amenedigol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer teuluoedd sy'n agored i niwed.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

'ac yn gresynu at effaith toriadau i fudd-daliadau tai ar allu tai cymdeithasol i ddarparu sicrwydd o gartref i blant.'

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:

'a pharhau â chymorth addas ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl wrth i blentyn dyfu.'

**Gwelliant 3.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg):]

Dileu pwynt 3c) a rhoi yn ei le:

'monitro cynnydd y cymorth iechyd meddwl amenedigol newydd er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer teuluoedd sy'n agored i niwed.'

**Gwelliant 4.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ar ddiwedd pwynt 3, ychwanegu is-bwyntiau newydd:

'ystyried sut y gall ysgolion helpu i greu amgylcheddau i fynd i'r afael â gordewdra;

sicrhau y gall pob ysgol gynnig cyfleusterau ardderchog ar gyfer chwaraeon.'

## 7 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6252** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith ei phenderfyniad i dorri cyllid Cronfa'r Teulu, a naill ai gwyrdroi'r toriadau i Gronfa'r Teulu, neu sefydlu dull o ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i deuluoedd incwm isel sydd â phlant anabl i o leiaf y lefelau isaf a ddarperid yn flaenorol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg):]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi'r cyllid canlynol gan Lywodraeth Cymru:

a) cynllun grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, sy'n werth £22m, i helpu cyrff y trydydd sector i gyflawni agenda uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar

gyfer gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cynnwys cynorthwyo teuluoedd sy'n magu plant anabl neu ddifrifol wael.

b) rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf sy'n werth £42.5m, gan gynnwys £3m o gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer teuluoedd anabl.

c) £2.2m o gyllid bob blwyddyn i Gyngor ar Bopeth Cymru i gynorthwyo grwpiau a dargedir, gan gynnwys teuluoedd â phlant anabl, a'u helpu i gael gafael ar y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae hyn wedi arwain at gyfanswm o £3.3m o fudd-daliadau ychwanegol rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2016.

2. Yn cydnabod bod Cronfa'r Teulu wedi cael uchafswm y grant sydd ar gael, sef £1.5m, ynghyd â chyllid ychwanegol o £400,000 eleni, i barhau i gynorthwyo teuluoedd ac i addasu ei model ariannu at y dyfodol.

3. Yn croesawu'r effaith gadarnhaol y mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi'i chael o ran cryfhau hawliau gofalwyr a'r cymorth a roddir iddynt, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am blant anabl neu ddifrifol wael."

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU, mewn perthynas â Lloegr, i gyd wedi cynnal eu cyllid i Gronfa'r Teulu.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6248** Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Sefydlu Cyfnewidfa Stoc i Gymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Mawrth 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Mawrth 2017 i'w hateb ar 8 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**1. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am berfformiad o'i gymharu â thargedau ailgylchu gwastraff trefol ledled Cymru? OAQ(5)0115(ERA)

**2. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau cyflenwad digonol o bren o Gymru ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ(5)0106(ERA)

**3. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad at gefn gwlad Cymru? OAQ(5)0113(ERA)

**4. Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried diwygio ei chynllun datblygu gwledig yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0112(ERA)

**5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo twristiaeth bwyd ledled Cymru? OAQ(5)0104(ERA)

**6. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am barciau cyhoeddus? OAQ(5)0108(ERA)

**7. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i gefn gwlad ar gyfer hamdden yng Nghymru? OAQ(5)0103(ERA)

**8. Jeremy Miles (Castell-nedd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer targedau ynni o brosiectau cynhyrchu ynni sy'n eiddo i'r gymuned yng Nghymru? OAQ(5)0114(ERA)

**9. Vikki Howells (Cwm Cynon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(5)0109(ERA)

**10.** **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i brosiectau amgylcheddol? OAQ(5)0116(ERA)

**11.** **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa astudiaethau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o effaith ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y diwydiant amaethyddol? OAQ(5)0107(ERA)**W**

**12.** **Nathan Gill (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am amaethyddiaeth yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0105(ERA)

**13.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyfodol Marchnadoedd Da Byw Cymru? OAQ(5)0111(ERA)**W**

**14.** **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo i wella'r amgylchedd lleol yn Nhorfaen? OAQ(5)117(ERA)

**15.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i sut y gall Cymru barhau i fodloni ei chyfrifoldebau amgylcheddol byd-eang, a gwella ar hynny, ar ôl i'r DU adael yr UE? OAQ(5)0110(ERA)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**1.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'n bwriadu cefnogi dioddefwyr trais domestig? OAQ(5)0117(CC)

**2.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion Llywodraeth Cymru ynghylch ffioedd asiantau gosod? OAQ(5)0113(CC)

**3.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynnydd o ran gweithredu'r cynllun cynhwysiant ariannol? OAQ(5)0123(CC)

**4.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effaith cyhoeddiadau polisi diweddar Llywodraeth y DU ar Gymru o ran diwygio lles? OAQ(5)0116(CC)

**5.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella cefnogaeth ar gyfer cymunedau i leihau tlodi plant yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0108(CC)

**6.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo diogelwch rhag tân yng Nghymru? OAQ(5)0111(CC)

**7.** **Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyfodol prosiectau cymorth cymunedol yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0120(CC)

**8.** **Siân Gwenllian (Arfon):** A wnaiff yr Ysgrifenydd Cabinet ddatganiad am ariannu cynlluniau o dan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ar gyfer 2017/18? OAQ(5)0109(CC)**W**

**9.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu blaenoriaethau adfywio Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro? OAQ(5)0110(CC)

**10.** **Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r mesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag aflonyddu ar fenywod yng Nghymru? OAQ(5)015(CC)

**11.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau mynediad cyfartal i gyrsiau rhianta cadarnhaol yng Nghymru? OAQ(5)0112(CC)

**12.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gyngor a chymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i awdurdodau lleol i weithredu'r addewid o 30 awr o ofal plant am ddim? OAQ(5)0119(CC)

**13.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru? OAQ(5)0121(CC)

**14.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo cydraddoldeb i fenywod hŷn yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0118(CC)

**15.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr hawl i brynu? OAQ(5)0114(CC)